**Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR SIOPAU BACH**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 12:00pm ar 12 Gorffennaf 2017**

**Ystafell Briffio'r Cyfryngau, y Senedd**

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Janet Finch-Saunders AC (JFS) | Cadeirydd |
| Vikki Howells AC (VH) | Aelod, Is-gadeirydd |
| Mark Isherwood AC (MI) | Aelod |
| Russell George AC (RG) | Aelod |
| Hannah Moscrop (HM) | Swyddfa Janet Finch Saunders AC |
| Edward Woodall (EW) | Cymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) |
| Steve Dowling (SD) | Cymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) |
| Adrian Roper (AR) | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd (NFRN) |
| John Parkinson (JP) | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd (NFRN) |
| Amy Bainton (AB) | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Mike Owen (MO) | Cyllid Cymru |

**YMDDIHEURIADAU:**

| | |
|---|---|
| Huw Irranca-Davies AC (HID) | Aelod |
| David Rowlands AC (DR) | Aelod |
| Hefin Davies AC (HD) | Aelod |

1. **Croeso a chyflwyniadau**

Agorodd JFS y cyfarfod a chroesawodd y cynrychiolwyr.

2. **Ethol swyddogion**

Gofynnodd JFS am enwebiadau er mwyn ethol y swyddogion sy'n ofynnol gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ail-etholwyd JFS yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach gan RG a VH. Ail-etholwyd Cymdeithas Siopau Cyfleustra i ddarparu ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol. Etholwyd Aelodau eraill i'r grŵp, sef VH yn is-gadeirydd, MI a RG. Drwy e-bost, cadarnhaodd HID, DR a HD eu diddordeb mewn ymuno hefyd.

3. **Grŵp Datblygu Economaidd ar gyfer Strydoedd Mawr**

Cyflwynodd JFS waith y Grŵp Datblygu Economaidd ar gyfer Strydoedd Mawr a sefydlwyd gyda chymorth y cyn Weinidog Busnes Edwina Hart AC. Mae'r grŵp wedi cwrdd â grwpiau rhanddeiliaid drwy'r Grŵp Trawsbleidiol ac wedi datblygu canllawiau i bartneriaethau lleol ar sut y gall mesurau polisi wella twf economaidd ar strydoedd mawr i gefnogi eu gweithgareddau lleol.

Amlinellodd EW yr adrannau o'r canllawiau ar drethi busnes; ar gynllunio a mynediad; ac ar weithio mewn partneriaeth. Caiff y canllawiau eu cyfathrebu i bartneriaethau ac awdurdodau lleol a bydd y Grŵp yn coladu astudiaethau achos arfer gorau i'w rhannu trwy ganllawiau a gaiff eu diweddaru'n barhaus. **CYTUNWYD** y byddai JFS yn cyflwyno llythyr i Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn am ymateb gan y Llywodraeth i'r canllawiau.

4. **Cylch Gorchwyl: Ymchwiliad i Gefnogi Entrepreneuriaeth**

Gwahoddodd JFS y Gymdeithas Siopau Cyfleustra i gyflwyno Ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol i Gefnogi Entrepreneuriaeth. Cyflwynodd EW y Cylch Gorchwyl ac amlinellodd sut y bydd yr Ymchwiliad yn canolbwyntio ar gryfhau busnes yng Nghymru; gwella twf lleol; a hyrwyddo busnes a menter fel llwybr gyrfa buddiol. Bydd yr Ymchwiliad yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar ac yn gwahodd tystiolaeth ysgrifenedig. Yna gofynnodd EW am sylwadau gan gynrychiolwyr ar y Cylch Gorchwyl, materion i ganolbwyntio arnynt, a phwy i gysylltu â nhw am dystiolaeth.

Croesawodd VH y Cylch Gorchwyl a dywedodd y byddai ei Siambrau Masnach lleol yn cyfrannu at yr Ymchwiliad. Awgrymodd AB fod un aelod o'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag entrepreneuriaid ar dwf busnes ac y bydden nhw â diddordeb yn yr Ymchwiliad. Awgrymodd MI y dylai'r Pwyllgor wahodd Ymddiriedolaeth y Tywysog i roi tystiolaeth ar hyfforddiant yn y gwaith. Amlygodd AB y byddai'n werthfawr i'r Ymchwiliad ymchwilio i sut y dylai awdurdodau lleol gefnogi pobl i ddod yn entrepreneuriaid a dywedodd MO fod Uned Wybodaeth Cyllid Cymru yn bwriadu ymchwilio i allu busnesau Cymru i gael mynediad at gyllid.

Amlygodd JP y broblem fod canghennau banc yn cau gan ei gwneud yn anodd i berchnogion siopau bach adneuo arian yn gyflym ac yn ddiogel. Dywedodd MI fod banciau yn cau canghennau oherwydd y symudiad tuag at fancio ar lein, ond bod hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cysylltedd symudol a chysylltiad band eang da yng Nghymru wledig. Cydnabuwyd yr angen am seilwaith bancio a seilwaith digidol da i gefnogi busnes. **CYTUNWYD** y byddai'r grŵp trawsbleidiol yn gwahodd y diwydiant bancio i roi tystiolaeth i'r Ymchwiliad.

Amlygodd MI adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar yr Ardoll Prentisiaethau a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyflogwyr ar draws pob sector yn elwa o'r ardoll. Nododd EW fod yn rhaid i staff siopau cyfleustra gydymffurfio â fframwaith rheoleiddio cymhleth, gan gynnwys o ran gwerthu cynnyrch sydd â chyfyngiadau oedran, a'u bod yn meithrin sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr yn eu gwaith—rhywbeth y gellid ei gydnabod yn well o fewn y system brentisiaethau. **CYTUNWYD** y byddai'r Ymchwiliad yn archwilio sut y gall darpariaethau sgiliau gefnogi entrepreneuriaid a siopau bach.

5. **Unrhyw fater arall**

Amh.

6. **Cloi**

Diolchodd JFS i'r cynrychiolwyr a daeth â'r cyfarfod i ben.